OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3004 (Cy.260)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed - - - -	*22 Hydref 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Hydref 2007*
Yn dod i rym - -	*14 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru sydd wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**) ac o ran mesurau yn y maes milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**3**), yn gwneud y rheoliad canlynol.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) (Diwygio) 2007; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 14 Tachwedd 2007.

Diwygio Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007

2. Diwygir Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007(**4**) drwy ychwanegu ar ôl rheoliad 3(3) y paragraff canlynol —

> "(4) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu baragraff (3) yn euog o dramgwydd."

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddynodiad yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**3**) O.S.2003/1246. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddynodiad yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**4**) O.S. 2007/842 (W.74).